## Calfaria Fryn yw'r Unig Sail

### Ffigysbren Calfaria

Hi yw'r decaf o'r holl brennau yn y goedwig, ffyddlon Groes;
'Mewn un llwyn prydferthach blodau,
Purach ffrwyth na dail nid oes;
Mwyn yw'r Pren, a mwyn yw'r hoelion
Ddeil yr Aberth dan ei loes'.

***Fenatius Honorius Clemantius Ffornatus, Esgob Poitiers***

### Edrych ar y Groes

Wrth edrych Iesu ar dy groes
a meddwl dyfnder d'angau loes,
pryd hyn 'rwyf yn dibrisio'r byd
a'r holl ogoniant sy ynddo i gyd.

***Isaac Watts***
***Efelychiad y Pêr-Ganiedydd***

### Yr Iawn

Paham y gwneir cam â'r cymod – neu'r Iawn,
A'i rinwedd dros bechod?
Dywedwch faint y Duwdod!
Yr un faint yw'r Iawn i fod!

***Robert ap Gwilym Ddu***

### Athro'r Oesoedd ar y Groes

Berffaith Athro'r oesoedd sydd ar Galfaria,
Rho feddyliau'r nefoedd –
Cân Ephratah – i mi.

***Ben Bowen***

### Rhyddid y Groes

Lle mae'r Arglwydd y mae rhyddid,
Nid yw crefydd Iesu'n erlid;
Y mae'r galon gâr ormesu
Eto heb ddysgu caru'r Iesu.

***Ben Bowen***

### Mair, mam Iesu yn clywed sŵn y dyrfa

Dilynaist i Gaersalem,
Yn sŵn arwyrain gref;
‘Hosanna i Fab Dafydd!’ –
Ond nid heb glywed llef
O draw: ‘Croeshoelier Ef!’

***Gwili***

### Gweddi wrth y Groes

Arglwydd Iesu, clodforwn di am dy gariad gwaredigol
ac am y cyfan a wnaethost drosom.
Wrth i ni blygu mewn edifeirwch wrth y groes
cydnabyddwn yn ddiolchgar ein dyled i ti.
Canys eiddom ni y pechod a ddygaist,
eiddom ni y pris a dalaist,
eiddom ni yr iachawdwriaeth a enillaist.
Arglwydd Iesu, derbyn ein diolchgarwch
a gwna ni’n fwy teilwng o’th gariad di;
er mwyn dy gariad. Amen.

***Ivor Thomas Rees***